Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

4 Medi 2025

Annwyl Rieni/ Warcheidwaid,

Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd, croeso cynnes yn ôl i ddysgwyr a'u rhieni/warcheidwaid, a chroeso arbennig i'r rhai sy'n newydd i 'Deulu Gŵyr'.

**Canlyniadau Arholiadau Allanol 2025**

Llongyfarchiadau enfawr i ddysgwyr ar eu canlyniadau TGAU a Safon Uwch da iawn. Diolchwn i'r staff am eu paratoi mor drylwyr ar gyfer yr arholiadau pwysig hyn.

| **TGAU 2025** | **%** |
|---|---|
| 5+ TGAU A*/A | 21.1 |
| 5+ TGAU A*-C | 74.1 |
| 5+ TGAU A*-C yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg | 64.8 |
| 5+ TGAU A*-G | 95.7 |
| **Safon Uwch 2025** | |
| A*-A | 37.5 |
| A*-C | 86.8 |
| A*-E | 97.4 |

**Niferoedd Dysgwyr**

Croesawyd 208 o ddysgwyr newydd i Flwyddyn 7 a daeth 75 o fyfyrwyr yn ôl i ymuno â'r Chweched Dosbarth a Phartneriaeth Chweched Gŵyr / Bryn Tawe. Cyfanswm presennol poblogaeth yr ysgol felly ar gyfer 2025-26 yw 1,136 o ddysgwyr.

**Newyddion am Staff**

Croesawn athrawon newydd yn gynnes i'r ysgol, sef Ricky Morgan (Pennaeth yr Adran Ddylunio a Thechnoleg), Rebecca Bassett (Athrawes Saesneg) ac Elain Davies (Athrawes Ieithoedd Rhyngwladol Cyfnod Mamolaeth). Yn ychwanegol y mae Garan Jenkins ac Arun Templeton yn ymuno â'r tîm Cynorthwy-wyr Dysgu. Mae Anna Samuel, ar ôl cyfnod llwyddiannus fel Pennaeth Adran y Gymraeg, wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r cyfrifoldeb a phenodwyd yn ei lle, am flwyddyn yn y lle cyntaf, ei dirprwy, Non Lewis. Fe fydd Laura Hughes yn cael ei dyrchafu i wasanaethu yn hen swydd Ms Lewis fel Ail yn yr Adran. Wrth i ni ddymuno'n dda i Ms Lewis a Ms Hughes, diolchwn yn

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
Challenge Award nace 2015–2025
QS
SportsMarc
360safe Cymru Cynnydd i Ddiogelwch Ar-lein

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

ddiffuant iawn i Miss Samuel am ei gwaith clodwiw wrth y llyw dros y blynyddoedd diwethaf.

**Cydweithio â Rhieni/Warcheidwaid**

Os bydd problem yn codi yr hoffech ei thrafod, dylech gysylltu yn gyntaf gyda Phennaeth Blwyddyn eich plentyn:

**Bl 7** – Emyr Myers **– 01792 977107** MyersE16@hwbcymru.net
**Bl 8**-Angharad Stephens – **01792 977108-** StephensA108@hwbcymru.net
**Bl 9**- Lloyd Henry-**01792 977109**- HenryA12@hwbcymru.net
**Bl10** - Sioned James –**01792 977110** – JamesS252@hwbcymru.net
**Bl 11**-Gwenallt Jones – **01792 977111** –JonesG1235@hwbcymru.net
**Bl12/13** -Annette Tilson – **01792 977113** - TilsonA1@hwbcymru.net

Mae modd i chi yn ogystal i gysylltu â swyddog dysgu a lles y Penaethiaid Blwyddyn, sef Siwan Davies, drwy dderbynfa'r ysgol **(01792 872403)** a fydd hefyd yn medru eich cynorthwyo.

**Fodd bynnag, gofynnir yn garedig i chi beidio â chysylltu drwy e bost gyda'r Penaethiaid Blwyddyn, neu unrhyw aelod arall o staff yr ysgol, gyda'r hwyr oni bai ei fod yn achos o argyfwng. Yn ychwanegol, ni ellid disgwyl ymateb ar y dydd i ymholiad e bost** gan nad oes gan bob aelod o'r staff amser digyswllt o'r dysgwyr yn ddyddiol i ddelio â gwaith gweinyddol. Fe'ch atebir ymhen rhai diwrnodau felly**. Petai achos o argyfwng gennych yn ystod y diwrnod ysgol, dylech ffonio derbynfa'r ysgol.**

**Cynghoraf i chi hefyd wneud apwyntiad os ydych am drafod mater gydag aelod o'r staff wyneb-i-wyneb oni bai ei fod yn argyfwng.** Petaech yn cyrraedd safle'r ysgol yn ddirybudd, mae perygl na fydd yn bosib i drefnu fod aelod o staff ar gael i'ch cwrdd, ac na fyddwn am i chi deimlo eich bod wedi gwastraffu eich amser gwerthfawr o ganlyniad.

**Yn ogystal, a oes modd i bob rhiant/gwarcheidwad sicrhau ei bod mewn cyswllt â system gyfathrebu digidol yr ysgol, sef *Classcharts*.** Yr adnodd hwn a ddefnyddir i rannu gwybodaeth â rhieni/warcheidwaid am ymddygiad dysgwyr, gwaith cartref, gweithgareddau dysgu anffurfiol/allgyrsiol, llythyron y pennaeth, i gynnig ond rhai enghreifftiau. Mae yn ffynhonnell hollbwysig o wybodaeth i rieni/warcheidwaid ac mae peidio ag ymgysylltu â'r ffynhonnell yma yn medru peryglu dysgu a lles eich plentyn.

Diolchaf i chi am eich cydweithrediad tebygol ar y materion yma.

**Offer Ysgol**

A fyddech mor garedig â sicrhau fod eich plentyn yn cludo cas pensiliau i'r ysgol yn ddyddiol sy'n cynnwys yr offer ysgrifennu angenrheidiol megis sgrifbin, pensiliau, rwber, uwcholeuwyr a phren mesur. **Mae achosion o ddysgwyr yn mynychu gwersi heb sgrifbin yn parhau, sy'n achosi tipyn o broblem.** Mae offer Mathemateg hefyd yn angenrheidiol sy'n cynnwys cyfrifiannell gwyddonol, onglydd a chwmpawd.

**Gwisg Ysgol ac Eiddo Dysgwyr**

Mae cydymffurfio gyda gwisg swyddogol yr ysgol yn bwysig - trowsus neu sgert ddu blaen (nid *joggers*/*leggings* yn ddelfrydol), esgidiau du, siwmper ddu gyda bathodyn yr ysgol neu *hoody* yr ysgol **(ni chaniateir *hoody* arall)**, crys polo glas gyda bathodyn yr ysgol. A fyddech mor garedig â gosod enwau ar eiddo fel ein bod yn medru dychwelyd eiddo coll yn syth i'r perchennog. **Byddwn wir yn ddiolchgar petai pob rhiant/warcheidwad yn medru sicrhau bod eu plant yn cydymffurfio â disgwyliadau gwisg**. Monitrir y wisg ysgol yn achlysurol a byddwn yn cysylltu gyda chi os y teimlwn fod agweddau o'r wisg yn annerbyniol. Yn ogystal, ni ddylai dysgwyr liwio'u gwallt mewn modd eithafol.

**Polisi Ffonau Symudol**

Rhoddir caniatâd i ddysgwyr, os dymunant, i ddod â ffôn symudol i'r ysgol yn seiliedig ar ymgynghoriad diweddar gyda holl randdeiliaid yr ysgol. **Fodd bynnag, ni ddylid ei ddefnyddio yn ystod y dydd ag eithrio yn y ffreutur adeg cinio/egwyl i wirio archeb bwyd.** Os defnyddir ffôn heb ganiatâd, fe fydd y ffôn yn cael ei gymryd oddi ar y dysgwr gan yr athro a'i roi yn ddiogel cyn ei ddychwelyd, fel arfer ar ddiwedd y dydd. Ni ddylid defnyddio'r ffôn symudol i gymryd lluniau ar safle'r ysgol ar unrhyw gyfrif. Rydym yn ymwybodol iawn o'r ddialog genedlaethol bresennol am effaith andwyol posib ffonau symudol ar bobl ifanc ac fe fyddwn yn ymgynghori ymhellach gyda'n rhanddeiliaid ynghylch ein polisi os bydd angen.

**Presenoldeb**

Rydym yn arbennig o falch o'n traddodiad o bresenoldeb uchel gan ddysgwyr. Cyfradd presenoldeb yr ysgol am 2024-2025 oedd 94%, sy'n wych. Yn wir, Ysgol Gyfun Gŵyr oedd â'r presenoldeb gorau yn y Sir o ran ysgolion uwchradd yn 2024-25, ac rydym yn ymfalchïo yn fawr yn hynny. Rhaid i bob plentyn felly anelu at bresenoldeb sydd yn gyfforddus yn y 90au%. Mae colli un diwrnod o ysgol heb reswm da iawn yn tarfu ar addysg eich plentyn yn ddi-angen. Ni ddylai rhieni/warcheidwaid drefnu gwyliau yn ystod amser ysgol oherwydd byddai tebygrwydd uchel i absenoldeb y plentyn fod yn un heb awdurdod. Yn ogystal, disgwylir i bob dysgwr gyrraedd yr ysgol yn brydlon erbyn 8.40am ar gyfer cofrestru. Os yw disgybl yn cyrraedd ar ôl 9.00am, sef wedi diwedd cyfnod cofrestru, bydd angen iddo/iddi gofrestru presenoldeb hwyr yn nerbynfa'r ysgol. Dylid hefyd cysylltu gyda'r ysgol yn syth i

esbonio absenoldeb eich plentyn. **Mae hefyd yn bwysig bod rhieni/warcheidwaid yn rhoi gwybod yn syth i'r swyddfa ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb plentyn am y rhesymau dros hynny.**

**Cronfa Ysgol Wirfoddol**

Mae gan yr ysgol gronfa wirfoddol. Gofynnaf felly i chi ystyried cyfrannu yn wirfoddol £10 y tymor i'r gronfa hon os oes gyda chi blentyn yn yr ysgol, sef £30 y flwyddyn (Os oes gyda chi ail blentyn, gofynnwn i chi ystyried cyfrannu £20 y flwyddyn am y disgybl hwnnw, ac os oes gyda chi drydydd plentyn, gofynnwn am gyfraniad o £10 y flwyddyn). Gallwch dalu drwy eich cyfrif *I Pay* ysgol. Os na chredwch y gallwch gyfrannu y symiau hyn am ba reswm bynnag, byddai unrhyw gyfraniad ariannol o hyd yn cael ei werthfawrogi. Y rheswm dros sefydlu'r gronfa yw y cyd-destun ariannol heriol a wyneba'r ysgol gyda'r cyllid annigonol a geir drwy law'r Awdurdod Addysg Leol a Llywodraeth Cymru yn wyneb y cynnydd mewn costau. Os ydym i barhau i gynnig yr arlwy gwricwlaidd gyfoethog o ddysgu ac addysgu o safon uchel ar dir yr ysgol a rhaglen eang o weithgareddau allgyrsiol -sy'n cyfrannu at greu dysgwyr sy'n gwireddu eu potensial a dinasyddion rhagorol-mae'n rhaid canfod ffynonellau cyllid ychwanegol.  Diolch am roi ystyriaeth i'r mater hwn.

**Canolfan Addysgu Arbenigol-*Y Goleudy***

Rwy'n falch i'ch hysbysu fod y Ganolfan Addysgu Arbenigol newydd-neu'r *Goleudy* i roi yr enw swyddogol iddi-yn agor ar lawr uchaf y Prif Adeilad ym mis Medi. Mae y ganolfan wedi ymestyn i 18 o ran y lleoedd sydd ar gael i ddysgwyr gyda phroblemau cyfathrebu cymdeithasol a/neu anawsterau dysgu dwys. Cynhwysa'r ganolfan:

- Dwy ystafell ddosbarth newydd, wedi'u cynllunio i fod yn fannau dysgu hyblyg ac ysgogol
- Ystafell synhwyraidd, i ddarparu lle tawel a chefnogol ar gyfer rheoli synhwyrau a lles emosiynol
- Ystafell waith ychwanegol, i'w defnyddio ar gyfer gwaith unigol neu gefnogaeth grŵp bach
- Lifft hygyrch, a fydd yn cysylltu'r prif adeilad â'r adnodd newydd, gan sicrhau mynediad llawn i bawb

O'r diwedd, bydd gan y staff a'r dysgwyr ganolfan ddysgu haeddiannol, a'r Sir -sydd yn bennaf gyfrifol am y ddarpariaeth-mewn cydweithrediad â'r ysgol, wedi ymateb i un o argymhellion Arolwg *Estyn* o'r ysgol yn 2023 i ddarparu gwell adeilad.

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

**Gwyliau Ysgol a Diwrnodau HMS ar gyfer 2025-26**

Isod mae manylion y gwyliau a'r diwrnodau HMS ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf i'ch helpu chi gyda'ch cynllunio.

| **Gwyliau 2025-26** | |
|---|---|
| Toriad Hanner Tymor 1 | Dydd Llun 27 Hydref - Dydd Gwener 31 Hydref 2025 |
| Gwyliau'r Nadolig | Dydd Llun 22 Rhagfyr 2025 - Dydd Gwener 2 Ionawr 2026 |
| Toriad Hanner Tymor 2 | Dydd Llun 16 Chwefror - Dydd Gwener 20 Chwefror 2026 |
| Gwyliau'r Pasg | Dydd Llun 28 Mawrth - Dydd Gwener 10 Ebrill 2026 |
| Gŵyl y Banc | Dydd Llun 4 Mai 2026 |
| Toriad Hanner Tymor 3 | Dydd Llun 25 Mai - Dydd Gwener 29 Mai 2026 |
| Gwyliau'r Haf | Ysgol yn gorffen ar Ddydd Gwener, 17 Gorffennaf 2026 |

| **Dyddiau HMS 2025-26** |
|---|
| HMS 1 Dydd Llun 1 Medi 2025 |
| HMS 2 Dydd Mawrth 2 Medi 2025 |
| HMS 3 Dydd Gwener 24 Hydref 2025 |
| HMS 4 Dydd Gwener 27 Mawrth 2026 |
| HMS 5 Dydd Gwener 19 Mehefin 2026 |
| HMS 6 Dydd Llun 20 Gorffennaf 2026 |

Yn gywir,

J. Connick

Jeffrey Connick (Pennaeth)

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk